***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 Rhif 2717 (Cy. 273)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cosbau Penodedig) (Cymru) 2014

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *9 Hydref 2014* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *13 Hydref 2014* |
| *Yn dod i rym - -* | *7 Tachwedd 2014* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 13(3) a (4) o Ddeddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012(**1**).

### Enwi, cychwyn a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cosbau Penodedig) (Cymru) 2014.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 7 Tachwedd 2014.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012.

### Ystod ragnodedig o gosbau penodedig

**2.** Yr ystod y mae'n rhaid i swm a bennir o dan adran 13(1)(a) o'r Ddeddf ddod oddi mewn iddi yw rhwng £50 a £150, yn gynwysedig.

*Leighton Andrews*
Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, un o Weinidogion Cymru

9 Hydref 2014

(**1**) 2012 dccc 2.

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn ymwneud â chosbau penodedig, ac wedi eu gwneud o dan adran 13(3) a (4) o Ddeddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012 ("y Ddeddf").

Mae rheoliad 2 yn rhagnodi o fewn pa ystod y mae'n rhaid i swm cosb benodedig fod, sy'n daladwy yn unol â hysbysiad o dan adran 12 o'r Ddeddf. Yr ystod yw rhwng £50 a £150, yn gynwysedig.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi gan yr Is-adran Democratiaeth, Moeseg a Phartneriaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.